

Rhif: WG22208



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar

Dyddiad cyhoeddi: **16 Hydref 2014**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **15 Ionawr 2015**

Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar

- Trosolwg** Yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* gwnaethom ymrwymiad i ddatblygu ac ymgynghori ynglŷn â Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi manylion y fframwaith drafft a ddefnyddir i'n cynorthwyo ni i ddeall y graddau y mae ein polisiau a'n rhaglenni yn cael effaith. Mae'n fwriad hefyd i'r fframwaith gael ei ddefnyddio gan bawb sy'n arwain, comisiynu a darparu gwasanaethau yng Nghymru i blant a theuluoedd o adeg beichiogrwydd hyd at saith oed (diwedd y Cyfnod Sylfaen) fel dull o sbarduno gwelliannau ar lefel leol. Bydd yn darparu tystiolaeth a fydd yn dangos a ydynt yn gwneud gwahaniaeth i fywydau plant 0-7 mlwydd oed a'u teuluoedd.
- Sut i ymateb** Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r isod i gyrraedd erbyn 17:00 ar **15 Ionawr 2015** fan hwyraf.
- Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau
Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2013)
<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/earlyyearshome/building-a-brighter-future-early-years-and-childcare-plan/?lang=cy>
- Manylion cysylltu** I gael rhagor o wybodaeth:
Tîm y Blynyddoedd Cynnar
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: earlyyears@cymru.gsi.gov.uk
Ffôn: 029 2082 6556

Diogelu data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidogion	2
Yr hyn yr ydym am ei gyflawni	3
Ble'r ydym ni ar hyn o bryd?	4
Cyd-destun	5
Cynigion ar gyfer Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar	8
Beth yw fframwaith canlyniadau?	8
Pa ganlyniadau fydd y fframwaith yn eu mesur?	8
Hapusrwydd a lles	9
Amcanion	10
Dangosyddion	10
Mesurau perfformiad	11
Sut a phryd y bydd y fframwaith yn cael ei ddefnyddio?	12
Y fframwaith canlyniadau arfaethedig	13
Cwestiynau'r ymgynghoriad	14
Atodiad A: Mapio o gymharu â fframweithiau a mentrau eraill cysylltiedig	15
Atodiad B: Diffiniadau o'r data	23
Atodiad C: Enghraifft o gerdyn sgorio atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau	31
Atodiad Ch: Rhestr o'r sefydliadau sydd wedi ymwneud â datblygu Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar hyd yn hyn	35

Rhagair gan y Gweinidogion

Roedd *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (2013) yn nodi ein hymrwymiad llawn i sicrhau bod holl blant Cymru'n cael cychwyn cadarn; yn cael eu haddysgu'n dda; yn mwynhau'r iechyd gorau posibl; yn byw mewn cartref gweddus; ag amgylchedd wedi ei gyfoethogi ar gael iddynt gan gynnwys gweithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol; bod pobl yn gwrandao arnynt ac yn eu trin â pharch a'u bod yn teimlo'n ddiogel. Roedd y Cynllun yn nodi cyfeiriad y gwaith ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, yn disgrifio'r camau allweddol y byddwn yn eu cymryd yn y tymor byr a chanolig wrth inni ddatblygu tuag at gymdeithas fwy teg.

Rydym yn falch bod gennym Gynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ar gyfer Cymru a bod datblygiadau eisoes ar waith. Roedd yr adroddiad blynyddol cyntaf a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf yn amlinellu rhai o'r pethau allweddol sydd wedi'u cyflawni yng Nghymru ers lansio'r Cynllun. Fodd bynnag, megis dechrau yw hyn. Roedd y Cynllun yn nodi rhaglen uchelgeisiol ac ymestynnol ar gyfer newid. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod y polisïau a'r rhaglenni yr ydym yn buddsoddi ynddynt yn gwneud gwahaniaeth sylweddol; gan wella cyfleoedd bywyd plant.

Dyna pam yr ydym yn datblygu Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar. Bydd hwn yn rhoi dull inni o ddefnyddio tystiolaeth ac olrhain datblygiadau'n lleol ac yn genedlaethol. Trwy sylwi ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw gweithio cystal, gallwn ganolbwyntio adnoddau ar weithgarwch y dangoswyd ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau plant.

Mae gennym weithlu blynyddoedd cynnar ymroddgar a brwdfrydig yng Nghymru. Mae eisoes lawer o enghreifftiau o wasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau effeithlon, mwy cydlynol i blant a theuluoedd. Mae Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar yn dangos pa mor drawsbynciol yw'r agenda hon a gellir ei ddefnyddio i ategu'r dull hwn o gydweithio.

Cynhaliwyd nifer o drafodaethau gwerthfawr gydag amrywiaeth o randdeiliaid eisoes ynglŷn â'r hyn y dylid ei gynnwys yn y fframwaith; pa un ai'r canlyniadau a awgrymir yw'r rhai mwyaf perthnasol; ffactorau pwysig y dylid bod yn anelu atynt; a pha ddangosyddion yw'r gorau a'r cadarnaf. Mae'r adborth yr ydym wedi ei dderbyn hyd yn hyn wedi bod o gymorth i lunio'r fframwaith yn y ddogfen hon.


Er mwyn i hwn fod yn llwyddiannus ac er mwyn gwneud gwahaniaeth, mae'n hanfodol bod pawb sy'n ymwneud ag arwain, comisiynu a darparu gwasanaethau i deuluoedd a phlant o gyfnod beichiogrwydd hyd at saith oed yn parhau i ymrwymo iddo. Dylai'r fframwaith hwn fod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol a dyna pam y mae angen inni glywed eich safbwyntiau.



Huw Lewis AC
Y Gweinidog
Addysg a Sgiliau



Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog
Cymunedau a
Threchu Tlodi



Mark Drakeford AC
Y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau
Cymdeithasol

Yr hyn yr ydym am ei gyflawni

Yn Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (2013) gwnaethom ymrwymiad i ddatblygu ac ymgynghori ar Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar.

Bydd y broses o ddatblygu Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall faint o effaith y mae ein polisiau a'n rhaglenni blynyddoedd cynnar yn ei chael ar fywydau plant. Bydd yn ein cynorthwyo i hysbysu ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd o'i gymharu â'r Cynllun. Bydd o gymorth i nodi ble y mae angen rhagor o welliannau a meysydd y gallai fod angen inni roi blaenoriaeth iddynt yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor.

Er nad dyma'r prif bwrpas, rydym yn gobeithio y bydd y fframwaith hefyd yn cynorthwyo unigolion ym mhob rhan o'r sector blynyddoedd cynnar¹ yng Nghymru i ddeall eu cyfraniad nhw at gyflawni gwell canlyniadau. Ymhen amser, byddem yn dymuno gweld y fframwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwaith cynllunio a gwerthuso ar lefel leol, trwy ddefnyddio mesurau perfformiad.

Trwy ddiffinio'r canlyniadau yr ydym ei heisiau ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar, bydd y fframwaith o gymorth i ganolbwyntio adnoddau ar weithgareddau y dangoswyd eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Bydd yn cefnogi dull unedig o gynllunio, darparu a gwerthuso a fydd hefyd yn creu gwasanaethau cydweithredol gwell.

Rydym am i bawb sy'n gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar – o uwch arweinwyr i staff rheng flaen – deimlo cyfrifoldeb dros y canlyniadau a rennir a gweithio gyda'i gilydd i wneud gwahaniaeth iddynt.

¹ Defnyddir y term sector Blynyddoedd Cynnar i ddisgrifio pawb sy'n arwain, comisiynu a darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd o gyfnod beichiogrwydd hyd at saith oed

Ble'r ydym ni ar hyn o bryd?

Sefydlwyd y Bwrdd Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar ym mis Ionawr 2014. Cafodd ei gadeirio ar y cyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi ar y pryd. Mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, iechyd, addysg, academia a'r trydydd sector (mae mwy o fanylion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/earlyyearshome/early-years-partnership-board/?skip=1&lang=cy>.)

Y Bwrdd Partneriaeth sydd wedi goruchwyllo datblygiad Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar hyd yn hyn.

Trafodwyd drafft o'r fframwaith mewn tri gweithdy i randdeiliaid ledled Cymru ym mis Mehefin. Ystyriwyd yr adborth o'r gweithdai hyn gan y Bwrdd Partneriaeth ar 17 Gorffennaf. Adolygwyd y fframwaith er mwyn cynnwys y sylwadau a'r adborth a dderbyniwyd, fel y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Partneriaeth.

Cyd-destun

Mae eisoes nifer o fframweithiau a/neu fentrau eraill wedi'u sefydlu sy'n berthnasol i'r blynyddoedd cynnar neu sy'n cael effaith arnynt, wedi'u cynllunio gan Lywodraeth Cymru ac yn fwy eang. Mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu hystyried o fewn cwrmpas y gwaith hwn. Mae Atodiad A yn dangos y canlyniadau arfaethedig o'u cymharu â fframweithiau a/neu fentrau cysylltiedig sydd eisoes yn bodoli.

Mae Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â nifer o ddatblygiadau eraill a allai effeithio ar y dangosyddion a/neu'r mesurau a gaiff eu cynnwys yn y fframwaith. Bydd y fframwaith yn 'ddogfen weithio' a fydd yn cael ei hadolygu a'i hadnewyddu i gynnwys data newydd a pherthnasol wrth iddynt ddod ar gael, yn enwedig wrth i bolisiau cysylltiedig gael eu newid a'u datblygu. Rhoddir manylion rhai o'r prif ddatblygiadau sy'n debygol o gael effaith yn y flwyddyn nesaf isod:

- Ym mis Gorffennaf 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni - Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru". Mae hwn yn nodi agenda newydd ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus trwy gryfhau democratiaeth a darpariaeth leol ynghyd â diwygio'r setliad datganoli. Mae'r cynigion yn cynnwys cynnal ac ail-ganolbwyntio llywodraeth leol trwy uno sefydliadau, integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn well, symleiddio partneriaethau a sicrhau bod cynlluniau cydweithredu yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae rhan sylweddol o'r agenda hon yn canolbwyntio hefyd ar godi uchelgais a gwella perfformiad gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n nodi bod y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (a osodwyd ym mis Gorffennaf 2014) yn darparu'r fframwaith ar gyfer sicrhau pwrpas eglur ar gyfer y tymor hirach.

Mae'r Bil yn cryfhau trefniadau llywodraethu presennol mewn cyrff cyhoeddus penodol er mwyn cyflawni'r Gymru y carem ei gweld. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cyfres o amcanion lles hirdymor i Gymru, sef Cymru lewyrchus; gydnerth; mwy cyfartal â chymunedau cydlynus; a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu dangosyddion cenedlaethol i fesur y camau a gymerir tuag at gyflawni'r amcanion llesiant a chyflwyno adroddiadau arnynt yn flynyddol.

- Mae adolygiad o'r trefniadau asesu a'r cwricwlwm cenedlaethol ar waith ar hyn o bryd. Gweithredwyd Cam 1 o'r adolygiad hwn a chynhaliwyd ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar y newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu o ran y Meysydd Dysgu ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, a Datblygiad Mathemategol ac o ran y Rhaglenni Astudio ar gyfer Saesneg, Cymraeg a mathemateg. Bydd fersiynau terfynol y meysydd dysgu a'r rhaglenni astudio yn cael eu cyhoeddi yn ystod yr hydref 2014 er mwyn bod yn barod i'w gweithredu'n statudol ym mis Medi 2015.

Hefyd, penodwyd yr Athro Graham Donaldson i arwain adolygiad eang ac annibynnol o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Mae wedi ei gomisiynu i fynegi gweledigaeth eglur a chydlynol ar gyfer asesu a'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Gyfnod Allweddol 4. Bwriedir i'r Athro Donaldson gyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ddechrau'r flwyddyn newydd.

- Sefydlodd Iechyd Cyhoeddus Cymru brosiect braenaru blynyddoedd cynnar ym mis Rhagfyr 2010 i sicrhau y rhoddir mwy o flaenoriaeth i iechyd a lles y blynyddoedd cynnar, cynorthwyo i gydgyssylltu'r hyn a gyflawnir, nodi bylchau, a datblygu a gwerthuso ymyriadau. Maent wedi adolygu'r data sydd ar gael ac wedi cytuno ar ystod o ddangosyddion y gellir eu defnyddio i olrhain datblygiad. Mae gwaith ar y gweill bellach i fwrw ymlaen i ddatblygu system wyliadwriaeth y blynyddoedd cynnar ar gyfer Cymru. Rydym yn gweithio'n agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod y dangosyddion iechyd yn fframwaith canlyniadau'r blynyddoedd cynnar yn cyd-fynd â'r rhai hynny yn y prosiect braenaru.
- Yn y Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant nodwyd y byddem yn gweithio tuag at system fwy cydlynol o asesu, olrhain a monitro datblygiad a chynnydd plant yn y blynyddoedd cynnar. Mae fframwaith datblygu ac asesu'r blynyddoedd cynnar yn cael ei ddatblygu fel un fframwaith asesu cyffredinol ar gyfer plant 0-7 oed, a bydd yn darparu cyfres o ddulliau asesu cysylltiedig y gellir eu defnyddio i olrhain datblygiad plant. Bydd canfyddiadau'r adolygiad o'r trefniadau asesu a'r cwricwlwm cenedlaethol yn cael eu defnyddio wrth ddatblygu fframwaith datblygu ac asesu'r blynyddoedd cynnar. Y nod felly yw cyflwyno adnodd asesu dechreuol ar sail statudol o fis Medi 2015.
- Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried argymhellion yr adroddiadau annibynnol *Archwiliad Annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru ac Adolygiad annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant ac addysg gynnar*, a gyhoeddwyd yn 2014. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer datblygu prosesau arolygu unedig neu ar y cyd ar draws lleoliadau'r blynyddoedd cynnar er mwyn sbarduno gwelliannau yn y canlyniadau i blant o ran gofal, dysgu a lles. Mae AGGCC ac Estyn eisoes yn gweithio gyda'i gilydd o fewn systemau presennol i ddatblygu a phrofi fframwaith arolygu integredig mewn lleoliadau gofal nas cynhelir sy'n cael eu rheoleiddio ac sydd hefyd yn darparu addysg gynnar i blant (cyn oedran ysgol gorfodol). Bydd hyn hefyd yn cynnwys dysgu gan astudiaeth beilot o Fframwaith Barnu Ansawdd AGGCC. Ar ôl ei weithredu, bydd y fframwaith ar y cyd yn helpu i wneud y lleoliadau hyn yn fwy diogel ac i wella ansawdd eu gofal, yn ogystal â symud tuag at gyflawni canlyniadau dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Bydd hefyd yn darparu sail dystiolaeth dda ar gyfer asesu ansawdd y ddarpariaeth gofal plant ac olrhain gwelliannau.

- O ganlyniad i'r newidiadau y mae Llywodraeth y DU yn eu cyflwyno i'r gyfundrefn les, bydd mwy o gyfrifoldeb ar y sawl sy'n hawlio budd-daliadau i baratoi'n weithredol ar gyfer cyflogaeth a chael swydd wedi hynny. Wrth i Credyd Cynhwysol barhau i gael ei gyflwyno a disodli budd-daliadau megis y Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith, byddwn yn gweld effaith ar deuluoedd yng Nghymru. Darperir cymorth ar gyfer gofal plant o fewn Credyd Cynhwysol fel elfen gost ychwanegol sy'n destun tapr cyflog. Mae'r prif newidiadau i'r cymorth gofal plant sydd ar gael o dan y Credyd Cynhwysol yn golygu y bydd teuluoedd yn gymwys i dderbyn cymorth faint bynnag o oriau y maent yn gweithio gan nad yw'r rheol oriau'n berthnasol. O dan y Credyd Cynhwysol, gellir hawlio 70% o'r gwir gostau gofal plant a dalwyd hyd at uchafswm o £532.29 y mis ar gyfer un plentyn, a £912.50 ar gyfer dau neu fwy o blant. O fis Ebrill 2016, rydym yn deall y bydd y gyfran yn codi i 85%. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn sicrhau bod Blaendaliadau Cyllidebu ar gael o dan y Credyd Cynhwysol i dalu am gostau gofal plant ymlaen llaw i hawl wyr sydd â chynnig swydd wedi'i gadarnhau.

Mae Fframwaith Canlyniadau arfaethedig y Blynyddoedd Cynnar wedi'i gynllunio i gynnwys yr hyn sydd eisoes ar waith. Fe allai'r datblygiadau a amlinellwyd uchod sefydlu dangosyddion sy'n well na'r rhai hynny sydd gennym ar hyn o bryd. Fel y nodwyd, bydd y fframwaith yn cael ei adolygu a'i adnewyddu'n barhaus er mwyn cynnwys datblygiadau o'r fath.

Cynigion ar gyfer Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar

Beth yw fframwaith canlyniadau?

Mae Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar wedi ei ddatblygu gan ddefnyddio dull Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau. Gall y dull Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau ein cynorthwyo i gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn well er mwyn iddynt gyfoethogi bywydau dinasyddion. Mae Mark Friedman (*Trying Hard Is Not Good Enough*, 2005) yn disgrifio'r dull Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau fel modd disgybledig o feddwl ac o weithredu y gellir ei ddefnyddio i wella ansawdd bywyd mewn cymunedau yn ogystal â pherfformiad rhaglenni a gwasanaethau.

Mae'r dull Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau yn gwahaniaethu rhwng canlyniadau i'r boblogaeth a pherfformiad gwasanaethau (y gwahaniaeth y mae gwasanaethau'n ei wneud i'w cwsmeriaid). Mae'n sicrhau ein bod yn gwahanu'r ddau beth, yn nodi'n eglur beth yw ystyr llwyddiant ar bob un o'r lefelau hyn ac yna'n eu cyfuno at ei gilydd eto. Gallwn archwilio'r pethau yr ydym yn eu gwneud (rhaglenni a phrosiectau a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu) yng nghyd-destun y pethau yr ydym yn ceisio eu newid / gwella h.y. canlyniadau. Mae hyn yn egluro atebolrwydd – ceir atebolrwydd ar y cyd ynghylch canlyniadau ac atebolrwydd uniongyrchol ynghylch darpariaeth gwasanaeth.

Pa ganlyniadau fydd y fframwaith yn eu mesur?

Cynhaliwyd nifer o drafodaethau gyda rhanddeiliaid ym mhob rhan o'r sector blynyddoedd cynnar ynglŷn â pha amgylchiadau ansawdd bywyd yw'r rhai pwysicaf yr ydym eu heisiau ar gyfer pob plentyn 0-7 oed yng Nghymru. Rydym hefyd wedi adolygu'r fframweithiau a'r mentrau cysylltiedig. O ganlyniad i'r trafodaethau hyn a'r ymarfer mapio rydym yn cynnig y canlyniadau canlynol:

Mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar:

- yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel
- yn cael gofal, cefnogaeth a gwerthfawrogiad
- yn gydnerth, yn abl ac yn ymdopi
- yn iach
- yn dysgu ac yn datblygu
- yn hapus
- ac nad ydynt yn byw mewn tlodi

C. A yw'r saith canlyniad yn cynrychioli'r hyn sy'n bwysig i blant 0-7 oed?

C. Os nad yw'r canlyniadau'n cynrychioli hynny, beth sydd ar goll?

Hapusrwydd a lles

Profwyd fersiwn gynharach o'r fframwaith gyda nifer o randdeiliad ym mis Mehefin eleni. Y canlyniad a achosodd y mwyaf o drafodaeth yn y gweithdai hyn oedd bod 'plant yn y blynyddoedd cynnar yn hapus'. Roedd pawb yn cytuno ei bod yn bwysig diffinio'r hyn yr ydym yn ei olygu gan 'hapusrwydd' os ydym am gynnwys canlyniad o'r fath. Cynhaliwyd adolygiad o'r deunydd darllen ac mae'n amlwg y dadleuir bod hapusrwydd a lles yn gysyniad dynamig, amwys a chymhleth a'i fod yn derm eang, hollgynhwysol a ddefnyddir yn gyffredin. Yn ystod y trafodaethau gyda'r rhanddeiliaid defnyddiwyd llawer o wahanol dermau i olygu'r un peth, megis llythrennedd emosiynol, deallusrwydd emosiynol, iechyd meddwl cadarnhaol, lles emosiynol, cymdeithasol neu gorfforol.

Felly i ddibenion fframwaith canlyniadau'r blynyddoedd cynnar byddwn yn dilyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) sy'n nodi bod "lles", wrth sôn am unigolyn, yn golygu lles mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r canlynol:

- a) Iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol;
- b) Diogelwch rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
- c) Addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden;
- ch) Perthynas ddomestig, deuluol a phersonol;
- d) Cyfraniad a wneir i gymdeithas;
- dd) Sicrhau hawliau;
- e) Lles cymdeithasol ac economaidd;
- f) Addasrwydd y llety

O ran plentyn, mae "lles" hefyd yn cynnwys:

- a) Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol;
- b) "welfare" fel y dehonglir y gair i ddibenion Deddf Plant 1989.

Er mai diffiniad o les yw hwn, mae'n cynnwys elfennau a drafodwyd yng ngweithdai'r rhanddeiliaid fel ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at hapusrwydd plant, i ddibenion y fframwaith. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys elfennau o nifer o ganlyniadau arfaethedig eraill yn y fframwaith fel 'dysgu a datblygu' ac 'yn cael gofal, cefnogaeth a gwerthfawrogiad'. Gellid dadlau y byddai hapusrwydd yn ganlyniad awtomatig yn sgil cyflawni'r canlyniadau eraill.

Cyflwynir heriau methodoleg ac ymarferol trwy gynnwys 'mae plant yn y blynyddoedd cynnar yn hapus' yn y fframwaith. Ar gyfer plant 8 oed a hyn y mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ymchwil cyfredol a'r data sydd wedi'u casglu; nid oes llawer o ddata ar gael sy'n ymdrin â phlant iau.

Defnyddir mesurau lles gwrthrychol yn fwy cyffredin na rhai goddrychol. Yn 2013, cynhyrnodd UNICEF Gerdyn Adrodd 11 i nodi lles plant (11-15 oed) ar bum dimensiwn: lles materol, iechyd a diogelwch, addysg, ymddygiad a risgiau, a thai ac amgylchedd. Eto, mae'r mesurau hyn yn cyd-fynd â'r rhai a gynigir ar draws fframwaith canlyniadau'r blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn cryfhau'r ddadl y bydd lles plant yn gwella, yn ôl diffiniad UNICEF, os byddwn yn gwneud gwelliannau yn y meysydd hyn.

C. A ddylid cynnwys 'mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn hapus' fel canlyniad ar ei ben ei hun?

C. Os yw 'mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn hapus' yn ganlyniad ar ei ben ei hun, beth yw'r dangosyddion mwyaf priodol?

Amcanion

Mae nifer o amcanion wedi eu hychwanegu o dan y canlyniadau. Y targedau cyffredinol sy'n cael blaenoriaeth gennym yw'r rhain, ac maent yn berthnasol i sawl canlyniad. Diben y rhain yw egluro a mesur yr hyn yr ydym am ei gyflawni. Cydnabyddir y gall dangosyddion a mesurau gyfrannu at ganlyniadau lluosog. Mae'r Amcanion felly wedi cael eu hychwanegu er mwyn cwmpasu hyn yn effeithiol.

Yr Iaith Gymraeg

Elfen allweddol o'r Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yw sicrhau bod mwy o ddarpariaeth yn y Gymraeg ar gael i blant a theuluoedd. Yn ein Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, nodwyd ein hymrwymiad i gynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. Er bod yr Amcan 'mae gwasanaethau sy'n diwallu anghenion rhieni, teuluoedd a phlant ar gael ac yn hygyrch' yn gysylltiedig â hyn, nid ydym wedi cynnwys Amcan penodol ynglŷn â darpariaeth yn y Gymraeg gan ei bod yn rhan annatod o bopeth yr ydym yn ei wneud.

Dangosyddion

Ar gyfer pob canlyniad, ceir nifer o ddangosyddion sy'n adlewyrchu i ba raddau y mae'r canlyniad yn cael ei gyflawni. Mae Friedman yn argymhell y dylai dangosyddion gyfathrebu'n dda a dweud rhywbeth sydd o bwys canolog ynglŷn â'r canlyniad, a dylai data da fod ar gael ar eu cyfer. Rydym felly wedi canolbwyntio ar ddangosyddion penodol a chadw'r rhestr yn gryno.

Mae gennym agenda datblygu data hefyd. Dyma'r meysydd lle y mae angen data newydd neu well, ar gyfer dangosyddion a mesurau perfformiad.

Datblygu Data	
Canran y plant sy'n cyrraedd neu'n rhagori ar eu cerrig milltir datblygu	Mae data ar gael ar gyfer plant Dechrau'n Deg yn unig ar hyn o bryd. Bydd yn haws casglu data ar gyfer pob plentyn yn sgil datblygu fframwaith datblygu ac asesu blynyddoedd cynnar
Canran y lleoliadau cyn oed ysgol y nodir yn adroddiadau arolygu AGGCC bod Ansawdd Bywyd wedi'i ddyfarnu'n dda neu'n well	Fel a nodwyd yn yr adran 'cyd-destun' uchod, ystyrir hwn fel rhan o fframwaith arolygu ar y cyd Estyn ac AGGCC
Canran trigolion 0-7 oed Cymru sy'n dod i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ar ôl cael anafiadau damweiniol yn y cartref	Cronfa ddata lefel cleifion a reolir gan Wasanaethau Gwybodeg GIG Cymru yw Set Ddata Adrannau Brys (EDDS). Gellir gofyn am wybodaeth fanwl ganddynt. Fodd bynnag, mae ansawdd y data ar gyfer rhai o'r eitemau yn wael a byddai angen ei ddatblygu pe byddai hwn yn ddangosydd yn y Fframwaith
Canran y mamau a wnaeth roi'r gorau i ysmegu yn ystod beichiogrwydd (mesurwyd yn wythnosau 36-38 neu ar ddechrau'r cyfnod esgor)	Mae'r rhain yn rhan o'r gyfres Dangosyddion Mamolaeth. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn asesu ansawdd y data sy'n ofynnol ar gyfer y dangosyddion hyn.
Canran y mamau nad ydynt yn magu mwy o bwysau nag a argymhellir yn ystod beichiogrwydd	
Trafodwyd y cysyniad o 'barodrwydd ar gyfer yr ysgol' yn y gweithdai i randdeiliaid. Bydd yr adnodd asesu ar gyfer dechrau'r Cyfnod Sylfaen, sy'n cael ei ddatblygu fel rhan o Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar, yn asesu dysgwr o'i gymharu â llinell sylfaen sy'n cyd-fynd ag asesiad diwedd y Cyfnod Sylfaen. Ar y sail honno, bydd yn asesu dysgwr o'i gymharu ag elfennau o ganlyniadau addysgol y nodwyd eu bod yn berthnasol i'r gofynion ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen. Mae hwn yn ffurfio rhan o'r agenda datblygu data.	

Mesurau perfformiad

Gwybodaeth y gellir ei mesur yw mesur perfformiad, a'i nod yw cynorthwyo i fesur a yw gwasanaeth yn gweithio. Mae'n gofyn y cwestiwn faint wnaethom ni, pa mor dda y gwnaethom ni hynny, ac a oes unrhyw un mewn gwell sefyllfa o ganlyniad.

Mae fframwaith canlyniadau'r blynyddoedd cynnar yn berthnasol i bawb yn y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, ond mae mesurau perfformiad yn benodol i sefydliadau a / neu wasanaethau unigol. Oherwydd hynny, rydym wedi cynnwys enghreifftiau o fesurau perfformiad y gellid eu defnyddio. Ni fydd y rhain yn berthnasol i bawb; maent wedi'u cynnwys fel enghreifftiau yn unig.

Mae rhai o'r dangosyddion a'r mesurau perfformiad yn berthnasol i fwy nag un o'r canlyniadau. Felly er y gellid eu gosod mewn sawl colofn, rydym wedi eu nodi gyferbyn â'r canlyniad y maent yn fwyaf perthnasol iddo, yn ein barn ni.

Sut a phryd y bydd y fframwaith yn cael ei ddefnyddio?

Lansiwyd *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair* ym mis Gorffennaf 2013. Byddwn yn adolygu'r hyn a gyflawnir o'i gymharu â'r Cynllun bob blwyddyn, ac yn cynnal gwerthusiad llawn yn 2016. Defnyddir fframwaith canlyniadau'r blynyddoedd cynnar i gefnogi'r cylch blynyddol hwn.

Ym mis Gorffennaf 2015 bydd y data a amlinellir yn y fframwaith yn cael eu casglu a'u cyflwyno o'u cymharu â'r canlyniadau. Bydd hyn yn rhoi darlun cenedlaethol inni o'r effaith yr ydym yn ei chael ar y blynyddoedd cynnar. Pan fo modd, bydd y data'n darparu'r llinell sylfaen ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Byddwn yn disgwyl gweld pethau'n symud yn eu blaenau.

Er mwyn sbarduno gwelliannau, bydd y timau perthnasol yn Llywodraeth Cymru yn adolygu'r data a gasglwyd ar gyfer y dangosyddion. Trwy drafod gyda rhanddeiliaid, byddwn yn cytuno ar fesurau perfformiad. Bydd llawer o'r mesuriadau perfformiad hyn eisoes ar gael; bydd angen casglu gweddill.

Gan fod mesurau perfformiad yn aml yn benodol i sefydliad a / neu wasanaethau unigol, enghreifftiau yn unig yw'r mesurau sydd wedi eu cynnwys yn y fframwaith drafft.

Gwerthfawrogi'r dylai fod rhywfaint o gysondeb ar lefel leol a rhanbarthol er mwyn cefnogi gwaith cydweithredol. Mae rhai rhaglenni blynyddoedd cynnar, er enghraifft Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, wedi defnyddio cronfa o fesurau perfformiad y gall timau lleol ddewis o'u plith, yn unol â'u hanghenion.

Yn ogystal â chasglu data blynyddoedd cynnar ym mis Gorffennaf 2015, rhoddir ystyriaeth i'r cwestiwn a ddylid datblygu cyfres o fesurau perfformiad ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Byddai'n bwysig i'r rhain gyd-fynd â'r rhai sydd eisoes wedi'u sefydlu ar gyfer rhaglenni penodol, rhag dyblygu gwaith.

Bydd darparwyr gwasanaeth yn gallu defnyddio'r data a gasglwyd i sbarduno gwelliannau. Mae hyn eisoes yn digwydd mewn sawl sefydliad. Rhoddir enghraifft yn Atodiad C o gerdyn sgorio Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau a ddefnyddir gan dîm Dechrau'n Deg Cyngor Caerdydd.

Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Cymru

Mae pob plentyn yn y Blynyddoedd Cynnar (0-7):

yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel	yn cael gofal a chefnogaeth ac yn cael ei werthfawrogi	yn gydnerth, yn hyfedrus ac yn ymdopi	yn iach	yn dysgu ac yn datblygu	yn osgoi byw mewn tloedi	yn hapus
<p>Nodau</p> <p>Cyflawni cerrig milltir datblygiad rhwng 2-3 oed a cherrig milltir cyrhaeddiad yn 7 oed</p> <p>Sicrhau bod o leiaf 95% yn manteisio ar bob rhaglen imiwneiddio i blant (ac eithrio'r fflw tymhorol) er mwyn sicrhau imiwneidd y boblogaeth</p> <p>Menywod i gyd yn cael beichiogrwydd a genedigaethau diogel a chadarnhaol sy'n arwain at eni mwy o fabanod iach</p> <p>Gwasanaethau sy'n diwallu anghenion rhieni, teuluoedd a phlant ar gael ac yn hygyrch</p> <p>Parhau i wella cyfleoedd i bob plentyn gael chwarae'n ddiogel</p>						
<p>Dangosyddion Poblogaeth</p>						
<ol style="list-style-type: none"> Cyfraddau marwolaethau babanod a phlant Canran yr aelwydydd digartref sy'n cynnwys plant dibynnol Canran trigolion Cymru 0-7 oed sy'n cyflwyno'u hunain mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ar ôl cael anafiadau damweiniol yn y cartref [datblygu data] 	<ol style="list-style-type: none"> Canran y Plant sydd mewn Angen yng Nghymru Canran y Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, fesul rheswm 	<ol style="list-style-type: none"> Canran y plant 7 oed sy'n cyflawni canlyniad 5 neu'n uwch y Cyfnod Sylfaen o ran eu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Canran y plant sy'n cyrraedd neu'n rhagori ar eu cerrig milltir datblygiad rhwng 2 a 3 oed (yn berthnasol hefyd i 'dysgu a datblygu') [datblygu data] 	<ol style="list-style-type: none"> Canran y genedigaethau byw â babanod sydd â phwysau geni isel (<2500g) Canran y plant pedair oed y mae eu himiwneiddiadau'n gyfredol Canran y plant 4/5 oed y mae eu pwysau'n iach Pydredd dannedd yn bump oed 	<ol style="list-style-type: none"> Canran y plant 7 oed sy'n cyflawni canlyniad 5 neu uwch mewn Sgiliau Iaith Saesneg/Cymraeg, Llythrennedd a Chyfathrebu Canran y plant 7 oed sy'n cyflawni canlyniad 5 neu uwch mewn Datblygiad Mathemategol 	<ol style="list-style-type: none"> Canran y plant mewn aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau cysylltiedig ag incwm Canran y plant sy'n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim ac sy'n cyflawni canlyniad 5 neu uwch mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol o'i gymharu â chanran y disgyblion nad ydynt yn derbyn Prydau Ysgol am Ddim 	<ol style="list-style-type: none"> Canran y plant 7 oed sy'n cyflawni canlyniad 5 neu uwch y Cyfnod Sylfaen o ran eu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac amrywiaeth ddiwylliannol Cyfraddau presenoldeb Blynyddoedd 1 a 2 (yn berthnasol hefyd i 'dysgu a datblygu')
<p>ENGHREIFFTIAU o Fesurau Perfformiad/Ansawdd y Gwasanaeth</p>						
<ol style="list-style-type: none"> Canran yr holl awdurdodau tai lleol a chymdeithasau tai sy'n cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru 	<ol style="list-style-type: none"> Canran y plant cymwys sy'n manteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg ac sydd wedi cofrestru a chychwyn mewn lleoliad Dechrau'n Deg Canran yr ysgolion cynradd a'r lleoliadau nas cynhelir sy'n cael dyfarniadau da neu well am ofal, cymorth a chyfarwyddyd yn arolygiadau Estyn bob blwyddyn 	<ol style="list-style-type: none"> Canran sy'n bwydo ar y fron ar ôl 10 diwrnod ac oedrannau hyd at 6 mis Canran y lleoliadau cyn ysgol sy'n cael dyfarniadau da neu well o ran Ansawdd Bywyd mewn arolygiadau AGGCC [datblygu data] 	<ol style="list-style-type: none"> Canran y mamau a roddodd y gorau i ysmegu yn ystod eu beichiogrwydd (mesurwyd rhwng 36-38 wythnos neu ar gychwyn y cyfnod esgor) [datblygu data] Canran y mamau sy'n ennill dim mwy na'r pwysau a argymhellir yn ystod beichiogrwydd [datblygu data] 	<ol style="list-style-type: none"> Canran y plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd neu'n rhagori ar eu cerrig milltir datblygiad yn ddwy oed ac yn dair oed Canran yr ysgolion cynradd a'r lleoliadau nas cynhelir sy'n cael dyfarniadau da neu well am safonau cyflawniad yn arolygiadau Estyn bob blwyddyn 	<ol style="list-style-type: none"> Canran y plant yn byw mewn ardaloedd sy'n cael budd o Ddechrau'n Deg, sydd wedi eu himiwneiddio'n llawn erbyn 4 oed Canran y plant sy'n cael budd o wasanaethau Dechrau'n Deg 	<ol style="list-style-type: none"> Canran yr ysgolion a'r lleoliadau nas cynhelir sy'n cael dyfarniadau da neu well am les yn arolygiadau Estyn bob blwyddyn (yn berthnasol hefyd i ganlyniadau 'yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel' ac 'yn gydnerth, yn hyfedrus ac yn ymdopi')



Cwestiynau'r ymgynghoriad

- C1. A fydd y fframwaith hwn yn helpu i adnabod y meysydd lle mae polisïau a rhaglenni'r blynyddoedd cynnar yn gwneud gwahaniaeth?
- C2. A yw'r saith canlyniad yn cynrychioli'r hyn sy'n bwysig i blant rhwng 0 a 7 oed?
- C3. Os nad yw'r canlyniadau'n cynrychioli'r hyn sy'n bwysig i blant rhwng 0 a 7 oed, beth sydd ar goll?
- C4. A ddylid cynnwys 'mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn hapus' fel canlyniad ar ei ben ei hun?
- C5. Os yw 'mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar yn hapus' yn ganlyniad ar ei ben ei hun, beth yw'r dangosyddion mwyaf priodol?
- C6. A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw adnoddau / mecanweithiau / data eraill y gellid eu defnyddio i fesur canlyniadau o ran y boblogaeth?
- C7. A allwch chi weld sut mae eich cyfraniad chi at y blynyddoedd cynnar yng Nghymru yn cyd-fynd â'r Fframwaith? Os na, beth sydd ar goll?
- C8. Y bwriad yw y bydd y fframwaith canlyniadau yn adnodd defnyddiol er mwyn cynllunio a gwerthuso ac yn cefnogi gwelliannau lle bo angen. Beth yw'r heriau posibl gyda fframwaith canlyniadau'r blynyddoedd cynnar ar lefel ymarferol, os oes heriau o gwbl?

Atodiad A: Mapio o gymharu â fframweithiau a mentrau eraill cysylltiedig

Canlyniadau Blynyddoedd Cynnar Arfaethedig	Canlyniadau GIG (Parthau – yn cael eu datblygu)	Canlyniadau Gwasanaethau Cymdeithasol (Yr hyn y mae pobl yn ei ddisgwyl)	Cymunedau yn Gyntaf	Y Rhaglen Lywodraethu (Themâu a nodau lefel uchel perthnasol)	Teuluoedd yn Gyntaf	Dechrau'n Deg	7 Nod Craidd	Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol i Wasanaethau Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru	Fframwaith Canlyniadau Cyfun ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg
Mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar: yn iach	Mae pobl yng Nghymru'n cael y wybodaeth a'r gefnogaeth briodol er mwyn rheoli eu hiechyd corfforol eu hunain	Rwy'n hapus Rwy'n iach Rwy'n cael y cymorth sydd ei angen arnaf i dyfu a bod yn annibynnol	Cymunedau lachach: Hybu lles corfforol Hybu lles meddyliol Hybu bwyta'n iach	Gofal Iechyd i'r 21ain Ganrif: Gwell iechyd i bawb a llai o anghydraddoldeb mewn iechyd	Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn mwynhau iechyd a lles	Mae plant yn iach ac yn ffynnu	Yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac nad ydynt yn cael eu cam-drin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio Yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol	-	Iechyd, ffyniant a lles (canlyniad poblogaeth) Mae plant 0-7 oed yn iach ac yn ffynnu ac yn cael eu cefnogi i gyflawni eu llawn botensial (blaenoriaeth) Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach, yn ffynnu ac yn cael eu

Canlyniadau Blynyddoedd Cynnar Arfaethedig	Canlyniadau GIG (Parthau – yn cael eu datblygu)	Canlyniadau Gwasanaethau Cymdeithasol (Yr hyn y mae pobl yn ei ddisgwyl)	Cymunedau yn Gyntaf	Y Rhaglen Lywodraethu (Themâu a nodau lefel uchel perthnasol)	Teuluoedd yn Gyntaf	Dechrau'n Deg	7 Nod Craidd	Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol i Wasanaethau Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru	Fframwaith Canlyniadau Cyfun ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg
Mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar:									cefnogi i gyflawni eu llawn potensial (blaenoriaeth)
yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel	Mae pobl yng Nghymru yn cael eu hamddiffyn rhag niwed ac yn eu hamddiffyn eu hunain rhag niwed sy'n hysbys iddynt	Rwy'n ddiogel ac yn cael fy niogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae gennyf berthnasoedd diogel ac iach	Cymunedau iachach: Lleihau Risgiau Cefnogi pobl (ag anghenion ychwanegol) i fyw yn y gymuned	Cefnogi Pobl: Gwasanaethau safonol, integredig, cynaliadwy, diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar bobl, gan feithrin eu cryfderau a hybu eu lles Cartrefi Cymru: gwneud yn siŵr bod pobl yn cael byw mewn cartrefi i ansawdd da, yn gynnes, yn ddiogel, ac yn defnyddio	Mae teuluoedd yn hyderus, yn meithrin ei gilydd, yn gallu gwrthsefyll problemau ac yn ddiogel	-	Yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac nad ydynt yn cael eu cam-drin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio Yn cael cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol	Mae preifatrwydd plant a phobl ifanc a'u hawl i gyfrinachedd yn cael eu parchu ac mae eu lles yn cael ei ddiogelu	

Canlyniadau Blynyddoedd Cynnar Arfaethedig	Canlyniadau GIG (Parthau – yn cael eu datblygu)	Canlyniadau Gwasanaethau Cymdeithasol (Yr hyn y mae pobl yn ei ddisgwyl)	Cymunedau yn Gyntaf	Y Rhaglen Lywodraethu (Themâu a nodau lefel uchel perthnasol)	Teuluoedd yn Gyntaf	Dechrau'n Deg	7 Nod Craidd	Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol i Wasanaethau Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru	Fframwaith Canlyniadau Cyfun ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg
Mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar:				ynni'n effeithlon					
yn cael gofal a chefnogaeth ac y cael ei werthfawrogi	<p>Mae pobl yng Nghymru yn derbyn y gofal a'r cymorth cywir mor lleol ag y bo modd ac fe'u galluogir i gyfrannu at lwyddiant y gofal hwnnw.</p> <p>Mae pobl yng Nghymru yn cael eu trin ag urddas a pharch ac yn trin eraill yn yr</p>	<p>Mae fy hawliau'n cael eu parchu</p> <p>Mae gennyf lais a rheolaeth</p> <p>Rwy'n cael fy nghynnwys mewn penderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar fy mywyd</p> <p>Mae fy amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried</p> <p>Gallaf siarad</p>	<p>Cymunedau lachach:</p> <p>Cefnogi pobl (ag anghenion ychwanegol) i fyw yn y gymuned</p>	<p>Cydraddoldeb: creu cymdeithas deg heb unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth, ac iddi gymunedau cydlynol a chynhwysol</p> <p>Gofal Iechyd i'r 21ain Ganrif: Gwell iechyd i bawb a llai o anghydraddoldeb mewn iechyd</p> <p>Cefnogi Pobl:</p>	-	-	Yn cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod	<p>Mae plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso ac mae eu hawliau, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu cefnogi.</p> <p>Mae plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi am eu hamrywiaeth, yn cael eu trin</p>	<p>Iechyd, ffyniant a lles (canlyniad poblogaeth)</p> <p>Mae rhieni'n cael eu galluogi i gefnogi eu plant i gyflawni eu llawn botensial (blaenoriaeth)</p> <p>Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn</p>

Canlyniadau Blynyddoedd Cynnar Arfaethedig Mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar:	Canlyniadau GIG (Parthau – yn cael eu datblygu)	Canlyniadau Gwasanaethau Cymdeithasol (Yr hyn y mae pobl yn ei ddisgwyl)	Cymunedau yn Gyntaf	Y Rhaglen Lywodraethu (Themâu a nodau lefel uchel perthnasol)	Teuluoedd yn Gyntaf	Dechrau'n Deg	7 Nod Craidd	Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol i Wasanaethau Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru	Fframwaith Canlyniadau Cyfun ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg
	<p>un modd</p> <p>Mae pobl yng Nghymru</p> <p>Mae gwasanaethau ar gael yn brydlon i bobl yng Nghymru ar sail angen clinigol ac maent yn cael eu cynnwys yn weithredol mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gofal</p> <p>Mae pobl yng</p>	<p>dros of fy hun neu mae gennyf rywun sy'n gallu gwneud hynny ar fy rhan</p> <p>Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas</p> <p>Rwy'n cael gofal trwy gyfrwng y Gymraeg os oes angen</p> <p>Rwy'n gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael imi.</p>		<p>Gwasanaethau safonol, integredig, cynaliadwy, diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar bobl, gan feithrin eu cryfderau a hybu eu lles</p>				<p>â pharch ac mae pob math o wahaniaethu yn eu herbyn ei herio</p> <p>Mae gwasanaethau eirioli o ansawdd da ar gael yn rhwydd ac mae'n hawdd i blant a phobl ifanc gael gafael arny'n nhw</p> <p>Mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn dylunio,</p>	<p>iach, yn ffynnu ac yn cael eu cefnogi i gyflawni eu llawn potensial (blaenoriaeth)</p>

Canlyniadau Blynyddoedd Cynnar Arfaethedig Mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar:	Canlyniadau GIG (Parthau – yn cael eu datblygu)	Canlyniadau Gwasanaethau Cymdeithasol (Yr hyn y mae pobl yn ei ddisgwyl)	Cymunedau yn Gyntaf	Y Rhaglen Lywodraethu (Themâu a nodau lefel uchel perthnasol)	Teuluoedd yn Gyntaf	Dechrau'n Deg	7 Nod Craidd	Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol i Wasanaethau Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru	Fframwaith Canlyniadau Cyfun ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg
	Nghymru'n cael eu trin fel unigolion â'u hanghenion a'u cyfrifoldebau eu hunain	Rwy'n cael y cymorth sydd ei angen arnaf, pryd mae ei angen, yn y ffordd y wyf ei eisiau. Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi mewn cymdeithas						cynllunio, cyflenwi a gwerthuso gwasanaethau eirioli	
yn dysgu ac yn datblygu	-	Rwy'n gallu dysgu a datblygu i fy mhotosial llawn Rwy'n gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i mi	Cymunedau Dysgu: Hybu Dysgu fel Teulu yn y Blynyddoedd Cynnar Cynorthwyo pobl ifanc i wneud yn dda	Addysg: Helpu pawb i gyflawni ei botensial, lleihau anghydraddoldeb a gwella lles economaidd a chymdeithasol	Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd mewn tlodi neu mewn perygl o fod mewn tlodi, yn cyflawni eu	Plant DD yn cyrraedd eu potensial	Yn cael dechrau teg mewn bywyd Yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu	-	Dysgu a Chyflawni Potensial (canlyniad) Mae plant 0-7 oed yn iach ac yn ffynnu ac yn cael eu cefnogi i gyflawni eu

Canlyniadau Blynyddoedd Cynnar Arfaethedig	Canlyniadau GIG (Parthau – yn cael eu datblygu)	Canlyniadau Gwasanaethau Cymdeithasol (Yr hyn y mae pobl yn ei ddisgwyl)	Cymunedau yn Gyntaf	Y Rhaglen Lywodraethu (Themâu a nodau lefel uchel perthnasol)	Teuluoedd yn Gyntaf	Dechrau'n Deg	7 Nod Craidd	Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol i Wasanaethau Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru	Fframwaith Canlyniadau Cyfun ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg
Mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar:			yn yr ysgol Cynorthwyo teuluoedd i gymryd rhan yn addysg eu plant Dysgu gydol oes mewn cymunedau Gwella sgiliau bywyd oedolion		potensial				llawn botensial (blaenoriaeth) Mae rhieni'n cael eu galluogi i gefnogi eu plant i gyflawni eu llawn botensial (blaenoriaeth)
yn gydnerth, yn abl ac yn ymdopi	-	Rwy'n perthyn Rwy'n gallu cyfranogi a chymryd rhan Rwy'n cael y cymorth sydd ei	Hybu lles meddyliol Hybu lles corfforol Cefnogi Dechrau'n	Addysg: Helpu pawb i gyflawni ei botensial, lleihau anghydraddoldeb a gwella lles economaidd a chymdeithasol	Mae teuluoedd yn hyderus, yn meithrin ei gilydd, yn gallu gwrthsefyll problemau	Mae teuluoedd DD yn abl ac yn ymdopi	-	-	lechyd, ffynnant a lles Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach, yn ffynnu ac yn cael eu cefnogi i

Canlyniadau Blynyddoedd Cynnar Arfaethedig	Canlyniadau GIG (Parthau – yn cael eu datblygu)	Canlyniadau Gwasanaethau Cymdeithasol (Yr hyn y mae pobl yn ei ddisgwyl)	Cymunedau yn Gyntaf	Y Rhaglen Lywodraethu (Themâu a nodau lefel uchel perthnasol)	Teuluoedd yn Gyntaf	Dechrau'n Deg	7 Nod Craidd	Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol i Wasanaethau Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru	Fframwaith Canlyniadau Cyfun ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg
Mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar:		angen arnaf i dyfu a bod yn annibynnol	Deg yn y Blynyddoedd Cynnar		ac yn ddiogel				gyflawni eu llawn botensial (blaenoriaeth)
yn osgoi byw mewn tlodi	-	Nid wyf yn byw mewn tlodi	-	Mynd i'r Afael â Thlodi: lleihau tlodi, yn enwedig tlodi parhaus rhai o'n pobl a'n cymunedau tlotaf, a lleihau'r tebygrwydd o dlodi yn y dyfodol	Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd mewn tlodi neu mewn perygl o fod mewn tlodi, yn cyflawni eu potensial	-	Yn osgoi cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi	-	Llewyrch a Chyflogaeth (canlyniad) Mae pobl sydd o fewn oed gweithio mewn teuluoedd incwm isel yn cael cymorth i ddatblygu sgiliau cyflogaeth, dod o hyd i waith a datblygu mewn swydd (blaenoriaeth)

Canlyniadau Blynyddoedd Cynnar Arfaethedig Mae pob plentyn yn y blynyddoedd cynnar:	Canlyniadau GIG (Parthau – yn cael eu datblygu)	Canlyniadau Gwasanaethau Cymdeithasol (Yr hyn y mae pobl yn ei ddisgwyl)	Cymunedau yn Gyntaf	Y Rhaglen Lywodraethu (Themâu a nodau lefel uchel perthnasol)	Teuluoedd yn Gyntaf	Dechrau'n Deg	7 Nod Craidd	Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol i Wasanaethau Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru	Fframwaith Canlyniadau Cyfun ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg
									Mae pobl yn cael gwybodaeth a chynghor i'w galluogi i gynyddu eu hincwm i'r eithaf (blaenoriaeth)
yn hapus	-	Rwy'n hapus	Hybu lles meddyliol Hybu lles corfforol	-	Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn mwynhau iechyd a lles	-	-	-	Iechyd, ffynniant a lles (canlyniad) Mae plant, pobl ifanc a theuluoedd yn iach, yn ffynnu ac yn cael eu cefnogi i gyflawni eu llawn botensial (blaenoriaeth)

Atodiad B: Diffiniadau o'r data

Trigolion Cymru sy'n cyflwyno'u hunain mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ar ôl cael anaf damweiniol yn y cartref

Disgrifiydd:	Canran y trigolion 0-7 oed sydd wedi cael eu derbyn i adrannau damweiniau ac achosion brys ag anafiadau damweiniol a gafwyd yn y cartref: dangosydd yn cael ei ddatblygu
Diffiniad:	"damweiniol"
Sut y bydd yn cael ei gofnodi?	Cronfa ddata ar lefel cleifion yw Set Ddata Adrannau Brys (EDDS) ac mae'n cael ei rheoli gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Gellir gwneud cais i gael dadansoddiad manwl ganddynt.
Pa mor aml y rhoddir adroddiad?	Ar wahân i fonitro amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, nid yw data EDDS yn cael ei gyhoeddi fel mater o drefn ar hyn o bryd. Byddai hyn yn cyfrif fel datblygu data felly.

Canran yr aelwydydd digartref sy'n cynnwys plant dibynol

Disgrifiydd:	Canran yr aelwydydd digartref yng Nghymru sy'n cynnwys plant dibynol
Diffiniad:	Aelwyd ddigartref yw un sy'n gymwys i gael cymorth, yn ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol
Sut y bydd yn cael ei gofnodi?	Data Digartrefedd Statudol a gesglir bob chwarter gan yr awdurdodau lleol
Pa mor aml y rhoddir adroddiad?	Ffurflenni Digartrefedd P1E chwarterol, yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol

Cyfradd marwolaethau babanod a phlant

Disgrifiydd:	Cyfradd marwolaethau babanod Cyfradd marwolaethau plant
Diffiniad:	Marwolaethau babanod – cyfradd marwolaethau babanod llai nag un oed yn fras Marwolaethau plant – cyfradd marwolaethau plant 1-4 oed yn fras
Sut y bydd yn cael ei gofnodi?	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Pa mor aml y rhoddir adroddiad?	Yn flynyddol

Canran y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ôl rheswm

Disgrifiydd:	Nifer y plant sydd mewn angen fel cyfradd fesul 10,000 o'r boblogaeth
Diffiniad:	<p>Mae ystyr penodol i'r term 'plant mewn angen' a ddiffinnir gan Ddeddf Plant 1989, a oedd yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddiogelu a hybu lles plant sydd mewn angen yn eu hardal. Mae'r Ddeddf yn diffinio plentyn mewn angen fel plentyn sy'n annhebygol o gyflawni neu gynnal iechyd na datblygiad o safon resymol, neu sy'n annhebygol o gael y cyfle i wneud hynny, heb i awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau iddo.</p> <p>Cofrestr Amddiffyn Plant: mae pob awdurdod lleol yn cadw Cofrestr Amddiffyn Plant er mwyn darparu cofnod o bob plentyn yn yr ardal y mae problemau amddiffyn plant yn eu cylch sydd heb eu datrys ac sy'n destun cynllun amddiffyn rhyngasiantaethol.</p>
Sut y bydd yn cael ei gofnodi?	Cyfrifiad Plant Mewn Angen Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol
Pa mor aml y rhoddir adroddiad?	Yn flynyddol

Canran y Plant sydd Mewn Angen yng Nghymru

Disgrifiydd:	Nifer y plant sydd mewn angen fel cyfradd fesul 10,000 o'r boblogaeth
Diffiniad:	Fel uchod
Sut y bydd yn cael ei gofnodi?	Cyfrifiad Plant Mewn Angen Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol
Pa mor aml y rhoddir adroddiad?	Yn flynyddol

Canran y plant sy'n cyrraedd neu'n rhagori eu cerrig milltir datblygiad rhwng 2 a 3 oed (dim ond ar gyfer plant Dechrau'n Deg y mae'r data hwn ar gael ar hyn o bryd ac felly mae'n rhan o'r agenda datblygu data). Mae'r wybodaeth isod yn amlinellu'r trefniadau cyfredol ar gyfer plant Dechrau'n Deg yn unig

Disgrifiydd:	Mae'r ffigur yn cynrychioli canran y plant Dechrau'n Deg rhwng 35 a 37 mis sydd wedi cael eu hasesu gan ymwelwyr iechyd ac sy'n bodloni neu'n rhagori ar y normau datblygiadol ar gyfer yr oedran hwn.
Diffiniad:	Mae Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg yn asesu pob plentyn sy'n derbyn gwasanaethau Dechrau'n Deg gan ddefnyddio adnodd priodol i asesu datblygiad sydd wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae'r adnodd yn asesu datblygiad y plentyn ar draws meysydd allweddol sy'n gysylltiedig â symudiad, trin eitemau â'r dwylo, golwg, clyw, lleferydd ac iaith a rhyngweithiad cymdeithasol, gan gymharu cynnydd y plentyn â norm sy'n deillio o grŵp cyfeirio safonol o blant tebyg o ran oedran. Gellir cynnal asesiadau yn y cartref neu mewn lleoliad gofal plant.
Sut y bydd yn cael ei gofnodi?	Cesglir y wybodaeth dair gwaith y flwyddyn gan yr awdurdodau lleol
Pa mor aml y rhoddir adroddiad?	Cyhoeddir mewn datganiad ystadegol blynyddol

Canran y plant 7 oed sy'n cyflawni canlyniad 5 neu uwch y Cyfnod Sylfaen o ran eu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

Disgrifydd:	Canran y plant 7 oed sy'n cyflawni canlyniad 5 neu uwch y Cyfnod Sylfaen o ran eu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.
Diffiniad:	<p>Bydd y plant yn cymdeithasu, yn cydweithredu ac yn cyfathrebu'n briodol â'u cyfoedion ac oedolion cyfarwydd, a byddant yn gofyn am gymorth pan fo angen. Byddant yn adnabod eu teimladau a gallant eu mynegi'n briodol. Byddant yn parchu eraill ac yn gwerthfawrogi'r hyn y maent wedi'i gyflawni. Bydd ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir, a byddant yn fwy ymwybodol o deimladau, safbwyntiau a chredoau pobl eraill. Byddant wedi deall y cysyniad o chwarae teg, a bydd ganddynt ddealltwriaeth o reolau a pham y mae'r rheolau hynny'n bodoli. Bydd gan y plant well dealltwriaeth o ganlyniadau eu gweithredoedd, a byddant yn cymryd cyfrifoldeb am y penderfyniadau y byddant yn eu gwneud. Ar y cyfan, byddant yn gallu rheoli eu hemosiynau ac ymdopi â siom. Byddant yn deall y bydd angen iddynt fwyta ac yfed yn briodol er mwyn cadw eu cyrff yn iach.</p> <p>(Fel y'i diffinnir yn y "Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru")</p>
Sut y bydd yn cael ei gofnodi?	Cesglir yn flynyddol o ysgolion a gynhelir
Pa mor aml y rhoddir adroddiad?	Cyhoeddir mewn datganiad ystadegol blynyddol

Pydredd dannedd yn bump oed

Disgrifydd:	Pydredd dannedd yn bump oed
Diffiniad:	Nifer y dannedd a oedd wedi pydru, wedi'u colli neu wedi'u llenwi fesul plentyn ar gyfartaledd. Mae pydredd dannedd yn fwyaf cyffredin ymhlith plant o gefndiroedd lle y ceir amddifadedd cymdeithasol ac fe'i hachosir yn bennaf trwy fwyta bwydydd ac yfed diodydd llawn siwgr yn aml. Fe'i mesurir mewn astudiaethau poblogaeth ac astudiaethau epidemiologol trwy ddefnyddio mynegai dmft, sef ffordd o fesur nifer y dannedd sydd wedi pydru, wedi'u colli neu wedi'u llenwi o ganlyniad i bydredd.
Sut y bydd yn cael ei gofnodi?	Arolygon Cymdeithas Prydain ar gyfer Astudio Deintyddiaeth Gymunedol (Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru)
Pa mor aml y rhoddir adroddiad?	Pob 4 blynedd fel arfer

Canran y plant 4/5 oed y mae eu pwysau'n iach

Disgrifydd:	Cyfran y plant 4 i 5 oed y mae eu pwysau'n iach
Diffiniad:	Yn seiliedig ar ganradd Mynegai Mâs y Corff
Sut y bydd yn cael ei gofnodi?	Rhaglen Mesur Plant Cymru
Pa mor aml y rhoddir adroddiad?	Yn flynyddol

Canran y genedigaethau byw â phwysau geni isel (<2500g)

Disgrifydd:	Canran y genedigaethau byw â phwysau geni isel (<2500g)
Diffiniad:	Canran y genedigaethau byw â phwysau geni o lai na 2,500g
Sut y bydd yn cael ei gofnodi?	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol– Ystadegau Genedigaeth
Pa mor aml y rhoddir adroddiad?	Yn flynyddol

Canran y plant pedair oed y mae eu himiwneiddiadau'n gyfredol

Disgrifydd:	<p>Canran y plant pedair oed sy'n byw yn ardaloedd Byrddau Iechyd Cymru sydd wedi cael eu himiwneiddiadau diweddaraf erbyn eu pen-blwydd yn bedair h.y. plant y mae cofnod eu bod wedi derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none">- Dos atgyfnerthu pedwar mewn un cyn cychwyn yn yr ysgol (yn erbyn difftheria, tetanws, pertwsis a pholio)- Dos derfynol o'r brechlyn niwmococol cyfun- Dos atgyfnerthu HibMenC (yn erbyn ffliw Haemofilws math B ac afiechyd Meningococcal grŵp C)- Ail ddos o frechlyn MMR (yn erbyn y frech goch, clwy'r pennau a rwbela)
Diffiniad:	Fel uchod
Sut y bydd yn cael ei gofnodi?	Iechyd Cyhoeddus Cymru (ystadegau COVER o'r Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol)
Pa mor aml y rhoddir adroddiad?	Yn chwarterol

Canran y plant saith oed sy'n cyflawni canlyniad 5 neu uwch mewn Sgiliau Iaith Saesneg a Chymraeg, Llythrennedd a Chyfathrebu

Disgrifydd:	Canran y plant saith oed sy'n cyflawni canlyniad 5 neu uwch mewn Sgiliau Iaith Saesneg a Chymraeg, Llythrennedd a Chyfathrebu
Diffiniad:	<p>Bydd y plant yn siarad yn glir â hyder cynyddol a byddant yn defnyddio geirfa sy'n ehangu. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth o anghenion y gwrandawr trwy gynnwys manylion perthnasol. Byddant yn deall ac yn cyfleu gwybodaeth syml. Byddant fel rheol yn gwrandawr o ofalus ac yn ymateb i ystod ehangach o symbyliadau. Byddant yn mabwysiadu geirfa a goslef fwy ffurfiol mewn rhai sefyllfaoedd. Byddant yn dechrau sylweddoli bod amrywiaeth yn perthyn i'r iaith a glywant o'u cwmpas. Byddant yn darllen testunau syml yn gywir ar y cyfan. Byddant yn dangos dealltwriaeth o ddigwyddiadau neu syniadau pwysig mewn storïau, cerddi a deunydd ffeithiol, a byddant yn mynegi barn yn eu cylch. Byddant yn defnyddio ystod o strategaethau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd a chadarnhau ystyr. Bydd gwaith ysgrifenedig y plant yn cyfleu ystyr. Byddant yn defnyddio geirfa briodol a diddorol gan ddangos peth ymwybyddiaeth o'r darlennydd. Bydd syniadau'n cael eu datblygu'n aml ar ffurf dilyniant o frawddegau cysylltiedig, a bydd priflythrennau ac atalnodau llawn yn cael eu defnyddio â rhywfaint o gysondeb. Bydd geiriau syml yn cael eu sillafu'n gywir fel rheol, ond os byddant wedi'u sillafu'n anghywir byddant yn ddealladwy o safbwynt ffonig. O ran llawysgrifen, bydd llythrennau'n cael eu ffurfio'n gywir a byddant yn gyson o ran maint.</p> <p>(Yn unol â'r diffiniad yn y "Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru")</p>
Sut y bydd yn cael ei gofnodi?	Cesglir yn flynyddol o ysgolion a gynhelir
Pa mor aml y rhoddir adroddiad?	Cyhoeddir mewn datganiad ystadegol blynyddol

Canran y plant saith oed sy'n cyflawni canlyniad 5 neu uwch mewn Datblygiad Mathemategol

Disgrifydd:	Canran y plant saith oed sy'n cyflawni canlyniad 5 neu uwch mewn Datblygiad Mathemategol
Diffiniad:	<p>Canlyniad 5 Cyfnod Sylfaen ar gyfer Datblygiad Mathemategol:</p> <p>Bydd y plant yn dewis y weithred fathemategol briodol wrth ddatrys problemau'n ymwneud ag adio neu dynnu rhifau. Byddant yn defnyddio strategaethau cyfrifo pen i ddatrys problemau'n ymwneud â rhifau, arian a mesuriadau. Byddant yn cyfrif setiau o wrthrychau'n ddibynadwy, a byddant yn galw ffeithiau rhifau rhwng 1 a 10 i gof er mwyn adio neu dynnu rhifau mwy o faint. Byddant yn gosod rhifau hyd at 100 yn eu trefn. Byddant yn adnabod ac yn defnyddio haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol. Byddant yn defnyddio unedau ansafonol a safonol cyffredin i fesur hyd a màs. Byddant yn siarad am eu gwaith gan ddefnyddio iaith fathemategol gyfarwydd, a byddant yn cyflwyno eu gwaith gan ddefnyddio diagramau syml a symbolau. Byddant yn adnabod dilyniannau rhif. Byddant yn gwahaniaethu rhwng symudiadau syth a throeon; a byddant yn adnabod hanner troeon, chwarter troeon ac onglau sgwâr mewn troeon. Ar ôl casglu gwybodaeth, byddant yn cofnodi eu canlyniadau mewn rhestrau, tablau, diagramau a graffiau bloc syml. Byddant yn didoli gwrthrychau ac yn eu dosbarthu gan ddefnyddio mwy nag un maen prawf.</p>

	(Yn unol â'r diffiniad yn y "Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru")
Sut y bydd yn cael ei gofnodi?	Cesglir yn flynyddol o ysgolion a gynhelir
Pa mor aml y rhoddir adroddiad?	Cyhoeddir mewn datganiad ystadegol blynyddol

Canran y plant mewn aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau cysylltiedig ag incwm

Disgrifiydd:	Y ganran sy'n derbyn budd-daliadau cysylltiedig ag incwm mewn aelwydydd sy'n derbyn Credydau Treth gydag incwm sy'n llai na 60% o ganolrif Cymru, neu blentyn dibynnol o'r ganran honno.
Diffiniad:	Y budd-daliadau cysylltiedig ag incwm sydd wedi eu cynnwys yn y dangosydd yw cyfanswm dad-ddyblygedig yr oedolion sy'n derbyn: Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Credyd Pensiwn, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Seiliedig ar Incwm, a'u plant dibynnol.
Sut y bydd yn cael ei gofnodi?	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Swyddfa Gartref
Pa mor aml y rhoddir adroddiad?	Yn flynyddol

Canran y plant sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim ac sy'n cyflawni canlyniad 5 neu uwch mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Sgiliau Mathemategol o'i gymharu â chanran y disgyblion nad ydynt yn derbyn Prydau Ysgol am Ddim

Disgrifiydd:	Canran y plant sy'n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim ac sy'n cyflawni canlyniad 5 neu uwch mewn Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Sgiliau Mathemateg o'i gymharu â disgyblion nad ydynt yn derbyn Prydau Ysgol am Ddim
Diffiniad:	<p>Mae gan y plant y mae eu rhieni'n derbyn y taliadau cymorth canlynol hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cymhorthdal Incwm - Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm - Cymorth o dan Ran VI Deddf Mewnffudo a Lloches 1999 - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm - Credyd Treth Plant, ar yr amod nad oes ganddynt hawl i Gredyd Treth Gwaith ac nad yw eu hincwm blynyddol yn fwy na £16,190. (Cyllid a Thollau EM sy'n gyfrifol am asesu lefel yr incwm blynyddol.) - Elfen Gwarant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth - Credyd Treth Gwaith dilynol - y taliad y gallai rhywun ei dderbyn am bedair wythnos ychwanegol pan fyddant yn peidio â bod yn gymwys i dderbyn Credyd Treth Gwaith <p>Credyd Cynhwysol</p>

Sut y bydd yn cael ei gofnodi?	Data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion cysylltiedig â chanlyniadau'r Cyfnod Sylfaen
Pa mor aml y rhoddir adroddiad?	Cyhoeddir yn flynyddol mewn bwletin ystadegol neu ar StatsCymru

Cyfraddau presenoldeb Blynyddoedd 1 a 2

Disgrifydd:	Cyfraddau presenoldeb ar gyfer disgyblion blynyddoedd 1 a 2
Diffiniad:	Canran y sesiynau hanner diwrnod a fynychwyd yn yr ysgol gan ddisgyblion yn grwpiau blwyddyn 1 a 2 y cwricwlwm cenedlaethol mewn ysgolion cynradd a gynhelir
Sut y bydd yn cael ei gofnodi?	Data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion cysylltiedig â ffurflenni presenoldeb a lenwir gan ysgolion
Pa mor aml y rhoddir adroddiad?	Cyhoeddir yn flynyddol mewn bwletin ystadegol neu ar StatsCymru

Atodiad C: Enghraifft o gerdyn sgorio atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau



TEITL GWASANAETH – TÎM LLEFERYDD AC IAITH

Disgrifiad o'r Gwasanaeth – [CYNHWYSWCH FANYLION AM STAFF; CYLLIDEB; POBLOGAETH DARGED AC ATI]

Mae Gwasanaeth Lleferydd ac iaith Dechrau'n Deg yn rhan o'r maes craidd lechyd ac mae'r Gwasanaeth yn cynnwys staff sy'n cyfateb i 2.8 Therapydd Lleferydd ac iaith amser llawn. Mae cyllideb y gwasanaeth yn rhan o'r gyllideb iechyd gyffredinol o £3.062 miliwn. Nod y gwasanaeth yw datblygu sgiliau iaith a chyfathrebu plant ym mhob un o'r 8 dalawch a'r Ardaloedd Cymnwrch Ehangach Lefel Is newydd.

Pwrpas y Gwasanaeth - Darparu cymorth cyffredinol i bob plentyn ym maes cyfathrebu.

Sicrhau bod aelodau eraill o'r tîm yn gallu adnabod a chynorthwyo gydag anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu trwy hyfforddi a monitro aelodau staff eraill Dechrau'n Deg i hyrwyddo sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu da.

Rhoi strategaethau penodol ac ymarferol i rieni ar gyfer datblygu iaith yn y ffordd orau bosibl trwy chwarae mewn grwpiau neu ymweliadau â'r cartref.

Prif Ddangosyddion


1. 67% o'r plant a atgyfeiriwyd at wasanaeth Therapi Lleferydd ac iaith craidd gan Therapi Lleferydd ac iaith Dechrau'n Deg wedi mynd i'w hapwyntiad cyntaf
2. 7% o rieni yn mynychu YMTD mewn cysylltiad â'r atgyfeiriadau a dderbynnir
3. 69% o aelodau staff Dechrau'n Deg wedi dilyn yr Hyfforddiant Lleferydd, iaith a Chyfathrebu

AGENDA DATBLYGU DATA


DD1 - % y plant sy'n cael eu hadnabod yn y SOGS dwy flynedd ac na chawsant eu hadnabod yn 18 mis
 DD2 - % y plant a aseswyd yn flaenorol ar PLS y mae eu hiaith dderbyngar wedi gwella gan arwain at sgorau priodol pan fyddant tua 30 mis oed
 DD3 - % y plant a aseswyd yn flaenorol ar PLS y mae eu hiaith fynegiannol wedi gwella gan arwain at sgorau priodol pan fyddant tua 30 mis oed
 DD4 - % y plant Dechrau'n Deg a atgyfeiriwyd at wasanaethau Therapi Lleferydd ac iaith craidd o'i gymharu â % y plant eraill a atgyfeiriwyd at y gwasanaeth craidd a pharhad eu presenoldeb

SUT MAE HI'N MYND?


% y plant a atgyfeirir at Therapi Lleferydd ac iaith sy'n bresennol yn eu hapwyntiad 1af



% y rhieni sy'n dilyn y cwrs YMTD o gymharu â'r atgyfeiriadau a dderbyniwyd



% o staff DD sy'n dilyn hyfforddiant gorfodol



Y STORI SY'N SAIL I'R GWAELODLIN

FAINT?

1. 17 rhiant yn dilyn YMTD
2. 41 aelod o staff yn dilyn hyfforddiant 'Cefnogi a Datblygu Cyfathrebu"
3. 23 o staff Gofal plant wedi dilyn Hyfforddiant *Learning Language & Loving It* (LLLI)
4. 51 o atgyfeiriadau wedi eu derbyn i ddarparu asesiad lleferydd neu iaith yn y cartref
5. 95 atgyfeiriad wedi ei dderbyn i gael ymyriad yn y cartref i blant 12-18 mis oed
6. 247 o blant unigol wedi eu hasesu mewn gofal plant
7. 234 o atgyfeiriadau wedi eu derbyn ar gyfer YMTD
8. 4 grŵp YMTD wedi eu cynnal
9. 12 aelod o staff wedi mynychu sesiynau hyfforddiant cefnogaeth gan gymheiriaid YMTD
10. 4 o sesiynau hyfforddiant Cefnogi a Datblygu Cyfathrebu wedi eu cynnal

PA MOR DDA?

1. 70% o aelodau staff Dechrau'n Deg yn dilyn hyfforddiant Cefnogi a Datblygu Cyfathrebu
2. 19% o hwyluswyr YMTD yn mynd i bob sesiwn cefnogaeth gan gymheiriaid a gynigir
3. 100% o'r staff sy'n cwblhau'r hyfforddiant LLLI, yn nodi bod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol neu'n well
4. 94% o aelodau staff gofal plant yn gwneud LLLI (gan gynnwys staff nad ydynt yn Staff Dechrau'n Deg)
5. 100% o'r aelodau staff sy'n llenwi'r holiadur, yn nodi bod yr hyfforddiant Cefnogi a Datblygu Cyfathrebu yn ddefnyddiol neu'n well
6. 100% o'r rhieni'n dilyn YMTD, gan fynd i chwe sesiwn neu fwy

OES UNRHYW UN AR EI ENNILL?

1. 9% cyn 57% ar ôl o'r staff a gafodd hyfforddiant LLLI, yn sgorio 5 neu fwy mewn o leiaf 6 adran o'r TILRS (*Teacher Interaction and Language Rating Scale*) ar sgôr cyn ac ar ôl y fideo
2. 0% cyn 25% ar ôl o'r staff a gafodd hyfforddiant *Teacher Talk*, yn sgorio 5 neu fwy mewn o leiaf 6 adran o'r TILRS ar sgor cyn ac ar ôl y fideo
3. 55% o'r aelodau staff a gafodd hyfforddiant LLLI, yn sgorio 5 neu fwy mewn o leiaf 6 adran o'r TILRS ar ôl yr hyfforddiant
4. 33% o'r staff a gafodd hyfforddiant *Teacher Talk*, yn sgorio 5 neu fwy mewn o leiaf 6 adran o'r TILRS ar ôl yr hyfforddiant
5. 0% CYN 83% AR ÔL o Rieni a ddilynodd gwrs YMTD ac a lenwodd holiadur, yn dweud eu bod yn defnyddio'r strategaethau i gyd 'yn aml' neu fwy ar y raddfa sgorio ACI (grŵp ddim wedi ei gynnal yn ystod Tymor yr Haf)
6. 34% o'r Rhieni a ddilynodd gwrs YMTD sy'n dangos sgôr gynyddol o 40% neu fwy o ran eu defnydd o strategaethau ACI, cyn ac ar ôl y cwrs yn ôl gradd y Therapydd Lleferydd ac iaith
7. % Plant Dechrau'n Deg a ddilynodd gwrs YMTD (o leiaf 6 sesiwn) sy'n dangos datblygiad ieithyddol arferol yn eu hasesiad SOGS II dwy flynedd (gweinyddiaeth ddim ar gael/yn annigonol)
8. % Plant Dechrau'n Deg nad oeddent yn bresennol yn eu YMTD sy'n dangos datblygiad ieithyddol arferol yn eu hasesiad SOGS II dwy flynedd (gweinyddiaeth ddim ar gael/yn annigonol)
9. 58% o'r rhieni a oedd yn derbyn ymyriad yn eu cartrefi, a roddodd raddfa iddynt ACI eu hunain, ac a oedd yn dangos sgôr gynyddol o 40% neu fwy
10. 86% o'r rhieni a gynyddodd eu sgôr strategaeth ACI o 40% ar ddiwedd yr ymyriad (graddiwyd gan y Therapydd Lleferydd ac iaith)
11. 45% o'r ymyriadau Therapi Lleferydd ac iaith yn y cartref sy'n arwain at atgyfeiriad i wasanaethau Therapi Lleferydd ac iaith craidd (4 o bob 9 plentyn)
12. 9% o'r ymweliadau cartref ar gyfer asesiadau lleferydd neu iaith sy'n arwain at atgyfeiriad at wasanaethau Therapi Lleferydd ac iaith craidd
13. 15% o'r asesiadau gofal plant sy'n arwain at atgyfeiriad at wasanaethau Therapi Lleferydd ac iaith craidd
14. 20% o'r asesiadau gofal plant sy'n arwain at adroddiad i feithrinfa'r wladwriaeth
15. 23% o'r asesiadau gofal plant sy'n arwain at ryddhau'r plentyn o ofal tîm Therapi Lleferydd ac iaith Dechrau'n Deg gan y cyflawnwyd lefel lleferydd ac iaith priodol
16. 42% o'r asesiadau gofal plant sy'n arwain at barhau i osod targedau a monitro yn ystod darpariaeth gofal plant
17. 67% o'r plant a gafodd eu hatgyfeirio at wasanaethau Therapi Lleferydd ac iaith craidd ac a oedd yn bresennol yn eu hapwyntiad cyntaf
18. 81% o'r plant a gafodd eu hasesu ar PLS ar ddechrau'r ymyriad yn y cartref a oedd ar lefel is na'r cyffredin o ran eu hiaith dderbyngar (43 o blant)
19. 67% o'r plant a gafodd eu hasesu ar PLS ar ddechrau'r ymyriad yn y cartref a oedd ar lefel is na'r cyffredin o ran eu hiaith fynegiannol (43 o blant)
20. 100% o'r plant a gwblhaodd ymyriad ar ôl 18 mis wedi gwella (mesurwyd gan ddefnyddio graddfa CHECS).

Y stori sy'n sail i berfformiad y 3 blynedd ddiwethaf –

- % y plant a atgyfeiriwyd at y gwasanaeth Therapi Lleferydd ac laith craidd ac a oedd yn bresennol yn eu hapwyntiad cyntaf** - mae'r ganran wedi cynyddu ac mae'n ymddangos bod hyn yn ganlyniad i weithio ar y cyd â gofal plant a meithrinfeydd i gefnogi rhieni yn eu hapwyntiad cyntaf.
- Peilot 18 mis** - Nid yw atgyfeiriadau newydd ar gyfer y peilot yn cael eu derbyn mwyach. Bydd plant yn troi'n 30 mis yn ystod tymor yr haf eleni, felly byddant yn cael eu hailasesu gan ddefnyddio PLS ar yr adeg honno.
Mae'r peilot yn dal i gael ei werthuso. Bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno ar wahân pan fyddant ar gael.
- YMTD** – Ni chynhaliwyd y grŵp YMTD yn ystod tymor yr haf gan fod angen prynu gliniaduron ac amgryptiad newydd. Roedd hyn yn golygu na chynhaliwyd pob un o'r grwpiau cefnogaeth gan gymheiriaid. Cafodd dau grŵp yn ystod tymor y gwanwyn eu canslo oherwydd y niferoedd isel. Mae'r ganran bresenoldeb yn isel o'i chymharu â nifer yr atgyfeiriadau, ond os bydd rhieni'n mynychu, mae 100% yn mynychu am 6 sesiwn neu fwy. Mae canran y rhieni sy'n cynyddu o 40% yn eu defnydd o'r strategaethau yn isel, gan mai gan un grŵp y daeth y ffigyrau hyn: nid oedd grwpiau'n cael eu cynnal yn ystod tymor yr haf; ni chafodd y grwpiau a gynhaliwyd yn nhymer yr hydref eu sgorio oherwydd y problemau TG. O'r rhieni a gafodd eu sgorio, roedd gan lawer ohonynt sgôr dda cyn y grŵp.
- Hyfforddiant Gorfodol** – Gwelwyd cynnydd yng nghanran y staff sy'n mynychu'r hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu gorfodol, ond gall hyn amrywio'n sylweddol rhwng timau: rhwng 50% a 100%.

PARTNERIAID A ALL EIN HELPU NI - Iaith a Chwarae, Tîm Iechyd (Ymwelwyr Iechyd, Gweithwyr Iechyd Teulu, Dieteg), Tîm Chwarae, Tîm Cyngori'r Blynyddoedd Cynnar, Staff gofal plant, Magu Plant, Meithrinfeydd y Wladwriaeth, Gwasanaeth Therapi Lleferydd ac Iaith Craidd

Beth rydym ni'n cynnig ei wneud i wella perfformiad dros y chwe mis nesaf [Mis Ebrill 2014 - Mis Medi 2014]

BETH

- % o'r plant a atgyfeiriwyd at wasanaethau Therapi Lleferydd ac laith craidd, ac a oedd yn bresennol yn eu hapwyntiad adolygu gofal plant cyntaf**
 - Gweithio ar y cyd â'r gwasanaeth Therapi Lleferydd ac laith craidd i sicrhau bod hysbysiadau 'dim yn bresennol' yn cael eu hanfon at dîm Therapi Lleferydd ac laith craidd Dechrau'n Deg
 - Parhau i ffonio rhieni, gofal plant a/neu'r feithrinfa i annog ymateb i'r llythyr sgrinio, hynny yw, ffonio i drefnu apwyntiad
 - Cyflwyno trefn weinyddol newydd i fonitro'r broses atgyfeirio/apwyntiadau, er mwyn nodi'r plant i gyd ac amlygu ar adegau priodol
 - Ar ôl sefydlu'r drefn newydd, cysylltu â rhieni, gofal plant a/neu'r feithrinfa os nad ydynt wedi dod i'w hapwyntiad cyntaf
 - Cysylltu i wneud yn siŵr bod apwyntiad cyntaf wedi ei drefnu
- YMTD - gwella ansawdd atgyfeiriadau a chynyddu canran presenoldeb**
 - O fis Ebrill 2014 byddwn yn cael cymorth gweinyddol ychwanegol a fydd yn ein galluogi i ddarparu 2 flynedd o ganlyniadau SOGS ar gyfer y rhai a ddilynodd neu'r rhai na ddilynodd YMTD.

PWY

Y Tîm Therapi Lleferydd ac laith

Tîm Therapi Lleferydd ac laith, Ymwelwyr

ERBYN PRYD

- Ebrill 2015

- Ebrill 2015

Angen Adnoddau Ychwanegol O/N ac os O

- N- amser tîm Therapi Lleferydd ac laith, gwasanaeth Therapi Lleferydd ac laith craidd, gofal plant, meithrinfeydd y wladwriaeth

N –amser y tîm Therapi Lleferydd ac laith,

<ul style="list-style-type: none"> • Bydd presenoldeb yn yr YMTD hefyd yn cael ei hyrwyddo gan Weithwyr Iechyd Teulu y mae teuluoedd eisoes yn eu hadnabod, ar hyn o bryd daw'r rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau gan Ymwelwyr Iechyd • Trafod dichonolrwydd sesiwn hyfforddi fer ar YMTD ar gyfer staff Dechrau'n Deg <p>3. Hyfforddiant Gorfodol -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Anfon gwahoddiadau unigol at y staff sydd wedi bod yn gyflogedig ers o leiaf 12 mis ond nad ydynt wedi dilyn yr hyfforddiant gorfodol. Bydd copi o'r llythyr hefyd yn cael ei anfon at eu rheolwr llinell. • Creu llythyr safonol y gellir ei anfon at bob aelod newydd o staff Dechrau'n Deg • Rhoi gwybod i bob rheolwr am ganran cydymffurfiad eu tîm o ran presenoldeb ar yr hyfforddiant gorfodol <p>Syniadau Cost Isel/Dim Cost: Ailysgrifennu taflen YMTD i rieni Syniad Annisgwyl: Paratoi DVD i hyrwyddo YMTD i rieni</p>	<p>Iechyd, Gweithwyr Iechyd Teulu</p> <p>Tîm Therapi Lleferydd ac Iaith</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ebrill 2015 	<p>Gweithwyr Iechyd Teulu, Ymwelwyr Iechyd</p> <p>N – Amser Tîm Therapi Lleferydd ac Iaith, Rheolwyr a'r aelodau staff i gyd</p>
---	---	---	--

Diolch i dîm Dechrau'n Deg Caerdydd am ddarparu'r enghraifft hon.

Atodiad Ch: Rhestr o'r sefydliadau sydd wedi ymwneud â datblygu Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar hyd yn hyn

Gweithdai'r Rhanddeiliaid
Achub y Plant
AGGCC (x1 cynrychiolydd ym mhob digwyddiad)
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
AWARE (x2 gynrychiolydd ym mhob digwyddiad)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg – Nyrsio Iechyd Ysgolion
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan– Pennaeth Bydwreigiaeth
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Metron Cleifion Allanol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr– Rheolwyr Tîm Ymwelwyr Iechyd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Ceredigion) - Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Iechyd Plant a'r Glasoed
Consortiwm Canol De Cymru
Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru – Rheolwr Consortiwm
Cynghorwyr Cyfnod Sylfaen Cymru Gyfan (x2 ym mhob digwyddiad)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Cyfarwyddwr Addysg
Cyngor Gofal Cymru
Cylch Chwarae Sant Gwynan
Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru
Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
Dechrau'n Deg (x2 gynrychiolydd ym mhob digwyddiad)
Estyn
Gwarchodwr Plant – Yn cynrychioli PACEY
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (x2 gynrychiolydd ym mhob digwyddiad)
Llywodraethwyr Cymru
Meithrinfa Ddydd Tiny Tots (NDNA)
NAHT, Cymru / Ysgol Gynradd Waunarlwydd

NASUWT
PACEY
Plant yng Nghymru
Prifysgol Bangor– Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
Prifysgol Caerdydd / Iechyd Cyhoeddus Cymru
Prifysgol De Cymru - cynrychiolydd Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
Sir Ddinbych – Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Theuluoedd yn Gyntaf (x2 gynrychiolydd ym mhob digwyddiad)
Y Drindod Dewi Sant – Pennaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
Ysbyty Gwynedd – Arweinydd clinigol Paediatreg
Ysgol Gynradd Porth Tywyn - Pennaeth
Ysgol Gynradd y Santes Fair a Sant Padrig ym Mhen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Ffrwd Win

Bwrdd Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar
AGGCC
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Awdurdod Lleol Conwy
Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr
Awdurdod Lleol Sir Ddinbych
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Lleol Powys
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyngor Caerdydd
Cyngor Gofal Cymru
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cymdeithas Cylchoedd Cyn-ysgol Cymru
Estyn
Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mudiad Meithrin
NAHT
Plant yng Nghymru
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Prifysgol Glyndwr

Grŵp Gwaith Llywodraeth Cymru – cydweithwyr o'r meysydd polisi canlynol

Amddifadedd Disgyblion
Asesiad
Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau
Blynyddoedd Cynnar, gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen
Cymunedau yn Gyntaf
Dechrau'n Deg
Eiriolaeth
Eiriolaeth
Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Gwella Llywodraeth Leol
Mamolaeth
Teuluoedd yn Gyntaf
Trechu Tlodi